



**Y Coleg
Merthyr Tudful**

**The College
Merthyr Tydfil**

Polisi Derbyniadau

Lluniwr gwreiddiol y polisi: Cyfarwyddwr Cynllunio a Gweithrediadau

Cwblhawyd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb:

Cymeradwywyd gan: Gweithrediaeth y Coleg

Dyddiad Cymeradwyo: Mehefin 2020

Dyddiad Adolygu: Mehefin 2021



POLISI DERBYNIADAU

Trosolwg

Gweledigaeth Y Coleg Merthyr Tudful yw *'Bod y coleg y bydd pobl ifanc, oedolion, cyflogwyr a phartneriaid ehangach yn ei ddewis'*

Yn sylfaen i'r weledigaeth hon, ein cenhadaeth yw i *'trawsnewid bywydau drwy gydweithio'*. Wedi'i gynnwys o fewn y genhadaeth hon, mae ein Polisi Derbyniadau yn gosod yr egwyddorion a'r dulliau gweithredu ar gyfer mynediad i'r coleg, gan sicrhau bod pob dysgwr unigol sy'n dymuno cael lle yn y coleg yn cael eu cydweddu â rhaglen neu gwrs astudio sy'n eu galluogi i gyflawni'r gorau posibl ac i symud ymlaen i gyrchfan o'u dewis.

Cwmpas y Polisi

Mae'r Polisi Derbyniadau'n cyfeirio at holl elfennau profiad cyntaf y dysgwr – o'r ymholiad cychwynnol i gofrestru a chynefino. Mae hyn yn cynnwys y dulliau gweithredu mewn grym o ymholiadau cychwynnol dysgwyr, darpariaeth gwybodaeth, cyngor ac arweiniad (IAG), gwneud cais ffurfiol, cyfweliad dethol, cynigion, croeso i'r coleg, cofrestru a digwyddiadau cynefino.

Iaith Gymraeg

Rydym yn croesawu gohebiaeth a cheisiadau yn Gymraeg. Bydd pob cais a gohebiaeth yn Gymraeg yn cael eu trin gan ddefnyddio'r un egwyddorion a'r amserlen a amlinellir isod.

Cymorth Dysgu Ychwanegol

Mae ymgeiswyr yn cael eu hannog i ddatgelu unrhyw Anghenion Dysgu Ychwanegol a/neu anabledau er mwyn i ni allu cynnig cymorth effeithiol. Gall Cydgysylltydd Dysgu Ychwanegol Y Coleg (ALNCo) gynnig cyngor a chymorth i ddysgwyr, rhieni, gofalywyr/ gwarcheidwaid, ac aelodau o'r staff. Cyn gynted ag y bydd cynnig wedi'i wneud a/ neu wedi'i dderbyn, bydd y coleg yn canfod unrhyw gymorth dysgu sydd ar gael ar y pryd er mwyn i'r coleg allu paratoi cyn i'r ymgeisydd gofrestru. Bydd yr ALNCo yn asesu gofynion cymorth yr ymgeisydd ar gyfer cyfweliad a'r rhaglen. Bydd pob datgeliad a wneir wrth wneud cais, mewn cyfweliad neu wrth gofrestru, yn cael eu cyfeirio at yr ALNCo. Gall ymgeiswyr gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol a/neu anabledau wneud cais am gyfweliad cyfrinachol i drafod eu hanghenion penodol. Gallant ddewis dod ag eiriolwr i'r cyfarfod hwnnw.

Euogfarnau Troseddol

Os bydd ymgeisydd yn datgan euogfarn droseddol bydd Gwasanaethau Myfyrwyr yn gofyn am fwy o fanylion a bydd angen i'r ymgeisydd lanw Ffurflen Gwybodaeth Cofnodion Troseddol (CR1). Bydd y Ffurflen CR1 yn cael ei hasesu gan y Swyddog Diogelu a Llesiant ynghyd â Phennaeth Is-adran y maes y gwnaed cais amdano. Os cytunir fod yr asesiad yn 'ddim risg' neu'n 'risg isel' gan ddau aelod y grŵp asesu a enwir uchod yna bydd y cais yn cael ei brosesu yn y dull arferol. Os cytunir fod y cais yn 'risg canolig', 'risg uchel' neu'n 'annerbyniol' gan un neu ddau aelod o'r grŵp, yna bydd y cais yn cael ei roi gerbron Panel Cynhwysiant.

1. Egwyddorion

Bydd y coleg yn defnyddio'r egwyddorion canlynol ar gyfer pob ymholiad a chais am gwrs, yn cynnwys ceisiadau am gyrsiau addysg bellach ac addysg uwch llawn amser a rhan amser a cheisiadau am ddysgu seiliedig ar waith a rhaglenni a chynlluniau prentisiaeth Tydfil Training.

- 1.1. Mae'r coleg wedi ymrwymo i weithredu proses derbyniadau teg, tryloyw a chynhwysol sy'n ystyried pob ymgeisydd ar eu teilyngdod unigol ac mae'n hyrwyddo mynediad cyfartal i bob un o'i raglenni astudio.
- 1.2. Bydd y coleg yn cynnig y wybodaeth gywir, ddiweddaraf am y cyrsiau sydd ar gael, gofynion mynediad a ffioedd cyrsiau, ysgoloriaethau, bwrsariau a grantiau cyllido eraill sy'n gysylltiedig.
- 1.3. Bydd y coleg yn cynnig cyngor ac arweiniad diduedd i bob ymgeisydd a dysgwr posibl.
- 1.4. Bydd y coleg yn ymateb i bob ymholiad a chais o fewn 24 awr (yn ystod dydd Llun - dydd Gwener) drwy neges destun ac e-bost ac o fewn saith diwrnod drwy lythyr.
- 1.5. Bydd y coleg yn sicrhau y bydd anghenion dysgu unigol yn cael eu canfod a'u hasesu ac y bydd systemau cymorth effeithiol mewn grym i sicrhau bod ymgeiswyr a dysgwyr yn cael eu cydweddu'n briodol â rhaglen neu gwrs astudio ac y bydd unrhyw gymorth arbenigol neu ychwanegol mewn grym o ddechrau'r cwrs. Nodwch fod tystiolaeth sy'n ategu Angen Dysgu Ychwanegol yn ofyniad statudol a bydd rhaid i'r coleg gael tystiolaeth cyn i'r cymorth fod mewn grym. Bydd yn ofynnol hefyd i ddysgwyr lofnodi ffurflen 'Diogelu Data'.
- 1.6. Bydd y coleg, wrth ystyried a phrosesu ceisiadau, yn parhau'r holl ddeddfwriaeth a pholisïau perthnasol a phriodol, yn cynnwys Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (nid Bil ADY), Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith, Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015, Deddf Cydraddoldeb 2010 ochr yn ochr â'n polisïau Diogelu Plant ac Oedolion mewn Perygl.
- 1.7. Mae'r coleg wedi ymrwymo i hyrwyddo'r iaith Gymraeg a bydd yn ymdrechu i ymdrin â, a rhoi cymorth i anghenion siaradwyr Gymraeg yn unol â Chynllun Iaith Gymraeg y coleg.
- 1.8. Bwriad y coleg yw cynnig darpariaeth cwrs addas i bob ymgeisydd ond pe na fyddai ei gyrsiau na'i gyfleusterau'n addas bydd y coleg yn cyfeirio ymgeiswyr at Gyrfa Cymru am arweiniad diduedd am gyfleoedd addysgu a hyfforddi eraill.
- 1.9. Mae'r coleg wedi ymrwymo i weithio amlasiantaeth a bydd, pan yn briodol, yn rhannu gwybodaeth ynghylch ymgeiswyr sy'n rhan o drefniadau amlasiantaeth, i gydymffurfio â Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol a Pholisi Preifatrwydd y coleg.
- 1.10. Bydd y coleg yn cynnig gwybodaeth amserol am holl ddyddiadau ac amseroedd cofrestru ar gwrs ac yn cynnig profiad cyntaf trefnus, effeithlon a phleserus i bob dysgwr.

2. Cod Ymddygiad Ymgeisydd

Bydd y coleg yn sicrhau y bydd y Polisi Derbyniadau ar gael ac yn ddealladwy i bob ymgeisydd. Yn gyfnewid am hynny, rhaid i bob ymgeisydd wneud y canlynol:

- 2.1 Darparu gwybodaeth fanwl gywir ar eu ffurflen gais
- 2.2 Cyflawni'r gofynion mynediad i gael eu derbyn ar y cwrs arfaethedig neu raglen astudio.
- 2.3 Dangos ymrwymiad cadarn i astudio pellach ac ethos y coleg.
- 2.4 Cyflawni telerau ac amodau polisi ffioedd y coleg, yn cynnwys y ffi cofrestru.
- 2.5 Cynnig tystiolaeth o'u llwyddiannau blaenorol yn eu hysgol, coleg neu weithle presennol.
- 2.6 Cyflawni sgriniwr sgiliau cychwynnol ac unrhyw asesiadau priodol neu gynnig gwybodaeth yn ôl y galw i fod yn fodd i'r coleg benderfynu eu haddasrwydd ar gyfer y cwrs a rhoi cymorth i unrhyw anghenion dysgu ychwanegol.
- 2.7 Cytuno i lynu wrth God Ymddygiad Dysgwyr y Coleg.

Sylwch y bydd yn ofynnol i unrhyw ymgeisydd sydd â dyled ariannol i'r coleg wneud trefniadau i dalu unrhyw ddyled heb ei thalu cyn cael ei dderbyn neu gael mynediad i gwrs pellach yn y coleg.

3. Hawl i wrthod derbyn

Gall y coleg yn ei ddisgresiwn absoliwt wrthod cais i astudio yn y coleg am y rhesymau canlynol sydd ddim yn rhestru pob posibilrwydd:

- 3.1. Os na fydd ymgeisydd yn gallu dangos lleiafswm y gofynion mynediad ar gyfer y cwrs neu'r rhaglen y gwnaed cais amdano/amdani ac nad oes cyrsiau amgen addas y dymunai'r ymgeisydd eu hastudio yn y coleg (sylwch y bydd y coleg, o dan yr amgylchiadau hyn, yn cysylltu â Gyrfa Cymru am gyngor ac arweiniad am ddarparwyr a chysiau amgen)
- 3.2. Os bydd y cwrs y gwnaed cais amdano wedi'i dan danysgrifio (gyda'r canlyniad na fyddai ei gyfleu yn ddichonadwy i'r coleg na'i ddysgwyr) neu wedi'i ordanysgrifio
- 3.3. Os fydd gan yr ymgeisydd euogfarn droseddol sy'n ei rwystro/rhwystro rhag cyflawni'r cwrs neu'r rhaglen y gwnaed cais amdano/amdani.
- 3.4. Os bydd y coleg yn ystyried, yn ei farn resymol, y gallai'r ymgeisydd beryglu neu fod yn risg i niweidio staff neu ddysgwyr y coleg.

Myfyrwyr rhyngwladol

Nid oes gan y coleg drwydded Haen 4 ac felly ni all noddi myfyriwr nad yw o'r UE i ddod i'r DU ac astudio yn y coleg. Gallai'r coleg felly wrthod derbyn gwladolion nad ydynt o'r UE ac nad ydynt yn gallu darparu tystiolaeth ddigonol y byddant yn gallu talu costau eu hastudiaeth ynghyd â Phasbort neu gerdyn Adnabod Cenedlaethol fel prawf o'u hunaniaeth.

Panel Cynhwysiant

Bydd ymgeiswyr ag Euogfarnau Troseddol, anghenion cymorth ychwanegol cymhleth neu sydd wedi'u gwrthod am resymau y tu allan i'r Polisi a gytunwyd yn cael eu cyfeirio at Banel Cynhwysiant y Coleg. Cadeirydd y Panel fydd Pennaeth Llesiant a Gwasanaethau Cymorth i Ddysgwyr a'r aelodau craidd fydd yn bresennol fydd Dirprwy Brifathro Adnoddau, Swyddog Diogelu a Llesiant, ALNCo, Cyfarwyddwr Cynllunio a Gweithrediadau, Cydgysylltydd I2A a Phennaeth Is-adran neu arweinydd cwrs ym maes y cwrs y gwnaed cais amdano gan y dysgwr.

Bydd yr holl wybodaeth am y dysgwr yn cael ei gyflwyno i'r panel a bydd y panel yn gwneud penderfyniad terfynol am gais y dysgwr. Sail y penderfyniad fydd a all y risgiau canolig neu uchel a gyflwynir gael eu rheoli'n briodol gydag amodau neu ychwanegol neu gymorth gan yr amrywiaeth gyfan o dimau cymorth i ddysgwyr. Os cytunir fod modd rheoli'r risg caiff y dysgwr a/neu'r holl asiantaethau allanol perthnasol eu hysbysu ar bapur. Rhaid i'r dysgwr ymateb yn ysgrifenedig yn datgan ei fod/bod yn derbyn yr amodau a/ neu'r cymorth, fel arall ni fyddant yn cael eu cofrestru. Os cytunir nad oes modd rheoli'r risg caiff y dysgwr a/neu'r holl asiantaethau allanol perthnasol eu hysbysu ar bapur.

Gall dysgwyr neu asiantaethau apelio yn erbyn y penderfyniad. Bydd apelïadau'n cael eu hystyried gan y Pennaeth a fydd yn derbyn yr holl ddogfennaeth ategol. Caiff y dysgwr a/neu'r holl asiantaethau allanol eu hysbysu am y penderfyniad o fewn 10 diwrnod gwaith. Bydd penderfyniad y Pennaeth yn derfynol.

4. Rheoli a Gweithredu'r Polisi

Mae gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Gweithrediadau gyfrifoldeb strategol am reoli, gweithredu ac adolygu'r polisi a'r dulliau gweithredu'n effeithiol.

Y Cyfarwyddwr Cynllunio a Gweithrediadau, y tîm Derbyniadau a'r Swyddogion Derbyniadau Is-adrannol fydd yn gyfrifol am weinyddu a gweithredu'r polisi o ddydd i ddydd.

Mae gan Benaethiaid Is-adrannau gyfrifoldeb i gefnogi'r polisi'n llwyr ac yn weithgar drwy sicrhau fod y polisi'n hysbys, yn ddealliedig ac yn cael ei weithredu ledled y coleg.

Bydd gan Swyddogion Derbyniadau Is-adrannol gyfrifoldeb i weithio gyda phob is-adran i fonitro os cedwir at y Polisi Derbyniadau, monitro datblygiad ceisiadau a sicrhau bod cyfathrebu gyda phob ymgeisydd yn cael ei gyflawni o fewn yr amserlen a nodir yn y polisi.

Bydd y tîm Derbyniadau yn cynnig cymorth gyda'r broses gyfweld. Bydd hyn yn golygu mynd i gyfweiliadau gyda'r tiwtor cwrs neu gynnal cyfweiliadau ar ran y tiwtor cwrs. Bydd gan yr holl staff yn y broses gyfweld gyfrifoldeb am gadw at BroTOCOL Cyfweiliad y coleg a byddant yn derbyn canllawiau cyfweld.

Bydd y tîm Derbyniadau'n gyfrifol am gysylltu â'r Cydgysylltydd Anghenion Dysgu Ychwanegol i gadw cofnod cywir o ddysgwyr yn datgelu angen dysgu ychwanegol ac i sicrhau fod lefel addas o gymorth mewn grym ar gyfer dysgwyr mewn dull amserol, ar ôl derbyn tystiolaeth ategol ADY a ffurflen Diogelu Data wedi'i harwyddo.

Bydd gan y Grŵp Profiad Cyntaf (wedi'i gadeirio gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Gweithrediadau) gyfrifoldeb dros drefniadau cofrestru, cynefino a gweithgareddau wythnos goeso'r coleg.

Mae pob Swyddog Derbyniadau bellach wedi derbyn Gwybodaeth, Cyngor ac Arweiniad gan Gyrfa Cymru hyd at safon 3 NVQ.

Bydd ceisiadau am Ddysgu Seiliedig ar Waith (WBL) a chyrtsiau Tydfil Training yn cael eu hailgyfeirio at gonsortiw Tydfil Training. Bydd derbyniadau i'r rhaglenni hyn yn cyd-fynd â meini prawf mynediad i gyrtsiau eraill yn y coleg, yn ddibynnol ar eu rhaglen astudio ac yn cydymffurfio â rheoliadau a fframweithiau WBL.

5. Monitro ac Adolygu

Bydd y polisi hwn a'r trefniadau gweithredu sy'n sylfaen iddo yn cael eu hadolygu'n flynyddol gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Gweithrediadau mewn cysylltiad â Thîm Rheoli'r Coleg. Bydd yr adolygiad hefyd yn ystyried adborth dysgwyr fydd yn deillio o Gynulliad y Dysgwyr, Cynadledau Dysgwyr, arolwg Profiad Cyntaf y coleg, arolwg Llais y Dysgwyr ac Arolwg Cenedlaethol y Myfyrwyr.

6. Dogfennau Ategol

Atodiad 1	Dulliau Gweithredu Derbyniadau a Siart Llif i Ddysgwyr Addysg Bellach ac Uwch
Atodiad 2	Dulliau Gweithredu Derbyniadau i Ddysgwyr Paratoi ar gyfer Bywyd a Gwaith
Atodiad 3	Protocol Cyfweiliad
Atodiad 4	Canllawiau Cyfweiliad
Atodiad 5	Ffurflen Cyfeirio at Gyfweiliad
Atodiad 6	Llyfryn Cynnig Cwrs a Ffurflen Cynnig Cwrs

ATODIAD UN: DULLIAU GWEITHREDU DERBYNIADAU I DDYSGWYR ADDYSG BELLACH AC UWCH

Mae'r dulliau gweithredu a ddisgrifir yn y ddogfen hon yn cyfeirio at ddarpar ddysgwyr sy'n bwriadu ymuno â rhaglenni dysgu addysg bellach neu addysg uwch a gynigir yn Y Coleg Merthyr Tudful. Mae dulliau gweithredu ar wahân i Dderbyniadau ar gyfer hyfforddeiaeth a phrentisiaeth Dysgu Seiliedig ar Waith, ac mae cyfeiriad hefyd atynt yn y polisi hwn a'u manylion i'w gweld yn y siartiau llif sydd yn yr atodiadau.

Profiad Cyntaf yn Y Coleg Merthyr Tudful

Dechrau taith y dysgwr

Cam 1: Hyrwyddo cynnig y coleg – Bydd y coleg yn cyhoeddi canllaw cwrs dwyieithog blynyddol ac yn diweddar ei Wefan ym mis Medi ymhob blwyddyn academaidd. Bydd canllaw'r cwrs yn cynnwys gwybodaeth fanwl am bob cwrs a chymwysterau mynediad a gynigir gan y coleg ynghyd â ffurflen gais ddwyieithog.

Cam 2: Ymholiadau cychwynnol – Mae'r tîm Derbyniadau a Phenaethiaid Is-adrannau yn mynychu a chymryd rhan mewn llawer o ddigwyddiadau mewn ysgolion ledled Merthyr Tudful. Gall hyn fod yn gyflwyniad i gynulliadau neu grwpiau o ddysgwyr blwyddyn 11 neu fod ar gael i gynghori darpar ddysgwyr a'u rhieni/gofalwyr mewn digwyddiadau yn yr ysgol megis Nosweithiau Rhieni, Ffeiriau Gyrfaedd a Nosweithiau Opsiynau.

Bydd ymgeiswyr posibl yn cael cyfle i wneud ymholiadau cychwynnol ynghylch cyrsiau a llanw ffurflen gofrestru cerdyn post. Mae hyn yn galluogi'r coleg i anfon copi o'r prospectws at bob ymholydd (os nad ydynt eisoes wedi'i dderbyn), unrhyw wybodaeth benodol am y cwrs, ffurflen gais a hefyd gwahoddiad i nosweithiau agored a digwyddiadau sydd ar ddod.

Fel arall, gellir gwneud ymholiadau'n uniongyrchol â'r coleg yn y cnawd, drwy e-bost, dros y ffôn, drwy'r cyfryngau cymdeithasol neu drwy Wefan y coleg. Os gwneir cais yn uniongyrchol i'r adran addysgu, dylid cyfeirio'r ymholiad at yr adran Derbyniadau. Gall dysgwyr sydd am wneud cais i'r coleg, ond sy'n ansicr o ba gwrs i ddewis, ofyn am gyngor ac arweiniad gan y Tîm Derbyniadau. Mae hyn ar gael dros y ffôn neu wyneb yn wyneb a'r dysgwr yn cael gwahoddiad i ddod i siarad gydag aelod o'r Tîm Derbyniadau neu i ddod i noson agored.

Cam 3: Dod i Ddigwyddiad Agored – Mae'r Coleg Merthyr Tudful yn cynnal pum digwyddiad agored gydol y flwyddyn i gynnig cyfle i ddysgwyr posibl i ddarganfod pa gyrsiau sydd ar gael, i gwrdd â staff y pwnc a dysgwyr cyfredol, i weld y cyfleusterau sydd ar gael ac i ddysgu am y cymorth bugeiliol a'r cyfleoedd allgyrsiol sydd ar gael yn y coleg. **Ar gyfer mynediad yn 2020, cynhelir y nosweithiau agored hyn yn rhithiol, gyda chyfle i ddysgwyr archebu slot i ddod i mewn ar gyfer cyngor ac arweiniad wyneb yn wyneb.** Gall dysgwyr posibl gofnodi diddordeb neu wneud cais yn ystod y digwyddiad agored. Ar gyfer y dysgwyr hynny sy'n archebu slot am gyngor ac arweiniad wyneb yn wyneb a fyddai'n dymuno gwneud cais, bydd tiwtor y cwrs yn cynnal cyfweiliad anffurfiol yn y digwyddiad agored a rhoi ffurflen cynnig cwrs a llyfryn i'r dysgwr.

Mae Cynghorwyr Gyrfaedd y Coleg a Chynghorwyr Gyrfa Cymru hefyd ar gael yn y Digwyddiadau Agored i gynnig gwybodaeth, cyngor ac arweiniad ychwanegol, diduedd. Cyhoeddir manylion y Digwyddiadau Agored ymhell o flaen llaw, ym mhrospectws y coleg, ar wefan y coleg, mewn ysgolion lleol, ar gyfryngau lleol a thrwy hysbysebu ar faneri yn yr ardal leol.

Cam 4: Gwneud cais – Gall dysgwyr wneud cais yn uniongyrchol i'r coleg:

- Ar-lein drwy wefan y coleg: www.merthyr.ac.uk

- Drwy ddefnyddio'r ffurflen gais bapur
- Drwy ddigwyddiad agored fel nodir uchod.
- Drwy sesiwn gwneud cais mewn ysgol

Wedi derbyn cais, bydd manylion yr ymgeisydd yn cael eu lanlwytho i system wybodaeth reoli'r coleg a'u gosod yn gofnod ymgeisydd unigol. Bydd y dysgwr yn derbyn neges destun ac e-bost i gydnabod derbyn y cais o fewn 24 awr. Wedi hynny, o fewn deg diwrnod gwaith o dderbyn y cais, bydd y Tîm Derbyniadau yn cysylltu â'r dysgwr er mwyn ei (g)wahodd i gyfweiliad a sgriniwr sgiliau cychwynnol.

Yn rhan o'r broses derbyniadau, caiff yr ymgeisydd wahoddiad i lawrlwytho ap y coleg, gan ei (g)alluogi i ddilyn trywydd y cais, derbyn hysbysiad gwthio gwib, archebu ei slot cyfweiliad ei hun a chael gafael ar wybodaeth ymgeisydd allweddol.

Cam 5: Anghenion Dysgu Ychwanegol – Bydd dysgwyr a fydd yn datgelu unrhyw anghenion dysgu ychwanegol yn cael eu cyfeirio at Gydgyssylltydd Anghenion Dysgu Ychwanegol y coleg a fydd yn cysylltu â'r dysgwr ac asiantaethau allanol priodol i sicrhau y bydd modd cynnig y lefel cymorth priodol yn unol â Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 newydd

Cam 6: Cyfweiliad a Sgriniwr Sgiliau Cychwynnol – Bydd pob ymgeisydd na chafodd gyfweiliad yn ein Digwyddiad Agored yn cael gwahoddiad i ddod i gyfweiliad gyda staff Derbyniadau a/neu diwtoriaid Pwnc. Cynhelir cyfweiliadau drwy gydol y flwyddyn, o fis Tachwedd hyd at fis Awst/Medi. Bydd dyddiadau cyfweiliad yn cael eu trefnu o fewn 10 diwrnod gwaith ar ôl derbyn cais. Bydd pob dysgwr fydd yn dod i gyfweiliad yn derbyn neges destun i'w hatgoffa y diwrnod cyn y cyfweiliad. Bydd pob aelod o staff fydd yn cynnal y cyfweiliadau yn dilyn Protocol Cyfweiliad y coleg ac, os byddant yn cynnig cwrs, bydd angen rhoi Llyfryn Cynnig Cwrs. **Bydd modd cynnal cyfweiliadau drwy Microsoft Teams, dros y ffôn neu wyneb yn wyneb yn y coleg. Bydd yr ymgeisydd yn cael dewis**

Cam 7: Cynnig cwrs – Caiff dysgwyr eu hysbysu o ganlyniadau'r cyfweiliad o fewn 24 awr drwy neges destun ac e-bost ac o fewn saith diwrnod gwaith drwy lythyr. Gall hwn fod yn gynnig diamod o le yn y coleg (i ymgeiswyr sydd eisoes wedi llwyddo i gael eu cymwysterau) neu'n gynnig amodol o le yn y coleg. Bydd y llythyr cynnig yn cynnwys slip ateb a chyfeiriad e-bost i alluogi'r dysgwr i gadarnhau derbyn y lle ynghyd â Ffurflen a Llyfryn Cynnig Cwrs. Mae'r Llyfryn hwn yn cynnig gwybodaeth bwysig a defnyddiol am gofrestru a dyddiadau tymor, ffioedd cofrestru, ysgoloriaethau a bwrsariau, anghenion dysgu ychwanegol ac wythnos groeso'r coleg.

Bydd Cydgysylltydd Anghenion Dysgu Ychwanegol y coleg hefyd yn cysylltu ag ymgeiswyr sy'n datgan angen dysgu ychwanegol.

Os na chredir ei fod yn briodol i gynnig lle i ddysgwr ar y rhaglen y gwnaeth gais amdani, bydd yr ymgeisydd yn cael cynnig cyngor ac arweiniad pellach gan y Tîm Derbyniadau/Cynghorydd Gyrfaoedd y Coleg er mwyn ystyried llwybrau amgen i symud ymlaen yn y coleg. Yna bydd y tîm Derbyniadau yn trefnu cyfweiliadau dewis ychwanegol yn ôl y gofyn.

Cam 8: Aseiad WEST – Ar ôl derbyn cynnig cwrs, gofynnir i'r ymgeiswyr gael aseiad WEST. Defnyddir hwn i benderfynu ymhellach ar addasrwydd yr ymgeisydd ar gyfer y cwrs ac i asesu os oes angen cymorth ar gyfer llythrennedd a rhifedd.


Bydd Swyddogion Derbyniadau Cymorth i Ddysgwyr yn cwrdd â thiworiaid cwrs a Phenaethiaid Is-adrannau yn rheolaidd i fonitro statws cais pob cwrs ac i sicrhau eu bod yn cadw at y dulliau gweithredu a'r amserlenni uchod. Bydd pob gohebiaeth yn ymwneud â'r uchod yn cael ei anfon yn ganolog gan yr adran Dderbyniadau yn defnyddio llythyrau safonol, dwyieithog gan dracio'u hynt.

Cam 9: Cadw mewn cysylltiad – Bydd y tîm Derbyniadau yn cysylltu'n rheolaidd â dysgwyr sydd wedi derbyn cynnig i astudio yn y coleg drwy'r dulliau canlynol:


- **Cardiau post, negeseuon testun a negeseuon e-bost cadw mewn cysylltiad sy'n cael eu dosbarthu gydol y flwyddyn** – e.e. oeddech chi'n gwybod fod x o fyfyrwyr wedi symud ymlaen i brifysgol o gwrs x y llynedd, pob lwc gyda'ch TGAU ac ati.
- **Hysbysiadau a newyddion am y coleg yn barhaol drwy ap y coleg**
- **Gwahoddiadau i ddod i'r coleg i ddigwyddiadau ar sail pwnc a nosweithiau agored** e.e. Byddai ymgeiswyr trin gwallt yn cael gwahoddiad i Sioe Avant Garde y coleg.
- **Cylchlythyrau a diweddariadau gan y coleg yn fisol** – wedi'u dosbarthu drwy e-bost
- **Sesiynau croeso a chyfarch i ymgeiswyr am gyrsiau unigol**

Cam 10: Cofrestru ac Wythnos Groeso Cynefino – Ym mis Awst byddwn yn anfon pecyn 'Croeso i'r Coleg' at ddarpar ddysgwyr. Bydd hyn yn cynnwys amlinelliad o'r cynlluniau i gynnig cyngor ac arweiniad ar Ddiwrnod Canlyniadau TGAU hyd at y trefniadau ar gyfer cofrestru a chynefino. Bydd y pecyn 'Croeso i'r Coleg' hefyd yn cynnwys gwybodaeth am deithio o gartref i'r coleg, cymorth ariannol a gwasanaethau cymorth eraill sydd ar gael i ddysgwyr yn y coleg.

Ffigur 1: Y BROSES DDERBYNIADAU – Ymholiadau a cheisiadau uniongyrchol



Y BROSES DDERBYNIADAU – Ymholiadau a cheisiadau drwy Nosweithiau Agored



ATODIAD DAU: DULLIAU GWEITHREDU DERBYNIADAU I DDYSGWYR PARATOI AR GYFER BYWYD A GWAITH

Mae'r dulliau gweithredu a ddisgrifir yn yr adran hon yn cyfeirio at ddarpar ddysgwyr sy'n bwriadu ymuno â'r cwrs Paratoi ar gyfer Bywyd a Gwaith yn Y Coleg Merthyr Tudful.

Dechrau taith y dysgwr

Cam 1: Hyrwyddo cynnig y coleg – Bydd y coleg yn cyhoeddi canllaw cwrs ac yn diweddarau ei Wefan ym mis Medi bob blwyddyn academiaidd. Bydd y coleg hefyd yn cynhyrchu Llyfryn Cynnig ADY lleol ar y cyd â'r awdurdod lleol.

Cam 2: Ymholiadau cychwynnol – Bydd y tîm Derbyniadau a Phenaethiaid is-adran Paratoi ar gyfer Bywyd a Gwaith yn mynychu cyfarfodydd a digwyddiadau pontio rheolaidd yn Ysgol Arbennig Maesglas lleol. Yn ystod y cyfarfodydd hyn, bydd ymgeiswyr posibl a'u rhieni/gofalwyr a gweithwyr cymorth yn cael y cyfle i wneud ymholiadau cychwynnol ynghlŷn â'r cyrsiau a'r cymorth sydd ar gael yn y coleg.

Neu gellir gwneud ymholiadau'n uniongyrchol i'r coleg yn y cnawd, drwy e-bost neu dros y ffôn.

Cam 3: Mynd i Ddigwyddiad Agored – Mae'r Coleg Merthyr Tudful yn cynnal pum digwyddiad agored drwy gydol y flwyddyn i roi cyfle i ddysgwyr posibl ddysgu am y cyrsiau sydd ar gael, cwrdd â staff pynciau a dysgwyr presennol, gweld y cyfleusterau sydd ar gael a dysgu am y cymorth bugeiliol a'r cyfleoedd allgyrsiol sydd ar gael yn y coleg. Gall dysgwyr posibl gofnodi diddordeb neu wneud cais fel rhan o'r digwyddiadau agored hyn.

Cam 4: Gwneud cais – Gall dysgwyr wneud cais yn uniongyrchol i'r coleg:

- Ar-lein drwy wefan y coleg: www.merthyr.ac.uk
- Drwy ddefnyddio'r ffurflen gais bapur
- Drwy ddigwyddiad agored fel nodir uchod.

Wedi derbyn cais, bydd y tîm Derbyniadau yn bwydo'r data i system wybodaeth reoli'r coleg a'u gosod yn gofnod ymgeisydd unigol.

Cam 5: Canfod anghenion cymorth y dysgwr – Wedi derbyn cais, bydd y dysgwr a'r rhieni/gofalwr neu weithiwr cymorth yn derbyn neges gydnabod ar e-bost o fewn 24 awr. Bydd y neges hon hefyd yn gofyn am unrhyw wybodaeth bellach ychwanegol ynghylch anghenion cymorth y dysgwr. Bydd y wybodaeth ychwanegol a roddir yn hysbysu'r broses gyfweliad ac felly mae'n hanfodol bod asiantaethau partner yn cydweithio mewn modd amserol i sicrhau nad oes oedi gyda'r cais.

Cam 6: Ymweliad Cychwynnol â'r Coleg – Os nad ydynt eisoes wedi bod mewn noson agored, bydd gwahoddiad i'r dysgwr a'r rhieni/gofalwr neu weithiwr cymorth ddod ar ymweliad cychwynnol â'r coleg. Bydd hyn yn cynnig cyfle i'r dysgwr a'r rhieni/gofalwr i weld y cyfleusterau a'r cymorth sydd ar gael. Bydd ymweliadau'n cael eu trefnu o fewn saith diwrnod gwaith wedi derbyn cais.

Cam 7: Cyfweliad a Sgriniwr Sgiliau Cychwynnol – Bydd pob dysgwr posibl yn cael gwahoddiad i ddod am gyfweliad gyda Swyddogion Derbyniadau a'r tiwtoriaid pwnc ILS. Cynhelir cyfweliadau drwy gydol y flwyddyn, o fis Tachwedd hyd at fis Awst/Medi. Bydd dyddiadau cyfweliad yn cael eu trefnu o fewn 14 diwrnod gwaith ar ôl derbyn cais. Bydd pob dysgwr fydd yn dod i gyfweliad yn derbyn neges destun i'w hatgoffa y diwrnod cyn y cyfweliad. Bydd pob aelod o staff fydd yn cynnal y cyfweliadau yn dilyn Protocol Cyfweliad y coleg ac yn llanw dalen Cofnod Cyfweliad (Atodiad 4). Fel rhan o'r cyfweliad, bydd disgwyl i ymgeiswyr gael asesiad sgriniwr sgiliau cychwynnol. Defnyddir hwn i benderfynu ymhellach ar addasrwydd yr ymgeisydd ar gyfer y cwrs ac i asesu os oes angen cymorth ar gyfer llythrennedd a rhifedd.

Cam 8: Cynnig cwrs – Caiff dysgwyr eu hysbysu o ganlyniadau’r cyfweiliad o fewn 24 awr drwy neges destun ac e-bost ac o fewn saith diwrnod gwaith drwy lythyr. Gall hwn fod yn gynnig diamod o le yn y coleg (i ymgeiswyr sydd eisoes wedi llwyddo i gael eu cymwysterau) neu’n gynnig amodol o le yn y coleg. Bydd y llythyr cynnig yn cynnwys slip ateb a chyfeiriad e-bost i alluogi’r dysgwr i gadarnhau derbyn y lle ynghyd â Ffurflen a Llyfryn Cynnig Cwrs. Mae’r Llyfryn hwn yn cynnig gwybodaeth bwysig a defnyddiol am gofrestru a dyddiadau tymor, ffioedd cofrestru, ysgoloriaethau a bwrsariau, anghenion dysgu ychwanegol ac wythnos groeso’r coleg.

Os na chredir ei fod yn briodol i gynnig lle i ddysgwr ar y rhaglen y gwnaeth gais amdani, bydd yr ymgeisydd yn cael cynnig cyngor ac arweiniad pellach gan y Tîm Derbyniadau /Cynghorydd Gyrfaoedd y Coleg er mwyn ystyried llwybrau amgen i symud ymlaen yn y coleg. Yna bydd y tîm Derbyniadau yn trefnu cyfweiliadau dewis ychwanegol yn ôl y gofyn.

Cam 9: Cadw mewn cysylltiad – Bydd y tîm Derbyniadau yn cysylltu’n rheolaidd â dysgwyr sydd wedi derbyn cynnig i astudio yn y coleg drwy’r dulliau canlynol:

- **Cardiau post, negeseuon testun a negeseuon e-bost cadw mewn cysylltiad sy’n cael eu dosbarthu gydol y flwyddyn**
- **Diweddariadau rheolaidd drwy ap y coleg**
- **Gwahoddiadau i ddod i’r coleg i ddigwyddiadau ar sail pwnc a nosweithiau agored**
- **Cylchlythyrau a diweddariadau gan y coleg yn fisol** – wedi’u dosbarthu drwy e-bost
- **Sesiynau croeso a chyfarch i ymgeiswyr**

Cam 10: Cofrestru ac Wythnos Groeso Cynefino – Ym mis Awst byddwn yn anfon pecyn ‘Croeso i’r Coleg’ at ddarpar ddysgwyr. Bydd hyn yn cynnwys gwahoddiad i ddod i mewn i gadarnhau eu cwrs ac i gwblhau’r camau olaf yn y broses gofrestru. Bydd y pecyn ‘Croeso i’r Coleg’ hefyd yn cynnwys gwybodaeth am deithio o gartref i’r coleg, cymorth ariannol a gwasanaethau cymorth eraill sydd ar gael i ddysgwyr yn y coleg.

ATODIAD TRI: PROTOCOL CYFWELIAD

Trosolwg

Mae'r Coleg Merthyr Tudful am sicrhau fod y broses gyfweiliad mor ddifyr a chefnogol â phosibl, gan gynnig cyfle i'r darpar ddysgwyr i amlinellu ei (d)dyheadau ef/hi a'r rhesymau dros ddewis y cwrs.

Dylid cynnal pob cyfweiliad gan y tîm Derbyniadau oni bai bod staff maes pwnc yn nodi fel arall, e.e. os byddant yn teimlo bod angen iddynt siarad yn fanwl gyda'r darpar ddysgwyr am arbenigedd y pwnc, h.y. Gofal Plant. O dan yr amgylchiadau hyn, bydd aelod o'r Tîm Derbyniadau yn bresennol gyda'r tiwtor cwrs.

Bydd disgwyl i'r Cyfweilwyr sicrhau bod gan y darpar ddysgwyr y gallu, y cymwysterau priodol, y sgiliau a'r brwdfrydedd i gwblhau'n llwyddiannus y cwrs o'u dewis er mwyn gwireddu eu potensial eithaf ac i symud ymlaen i addysg bellach neu gyflogaeth.

O ganlyniad, dylai'r cyfweiliad ganolbwyntio ar y meini prawf canlynol:

- **Rhesymau dros ddewis y cwrs/pynciau**
- **Lefel y diddordeb yn/brwdfrydedd dros y cwrs**
- **Uchelgeisiau'r dyfodol**
- **Addasrwydd ar gyfer y cwrs – cymwysterau cyfredol/i ddod, profiad gwaith neu wirfoddol cysylltiedig**
- **Dealltwriaeth o anghenion y cwrs**
- **Ymrwymiad tebygol i'r cwrs, yn cynnwys dealltwriaeth o gostau'r cwrs e.e. ffi cofrestru, gwisg, deunyddiau celf ac ati**
- **Y gallu a'r parodrwydd i ymwneud â gweithgareddau a chyfleoedd i gryfhau eu datblygiad personol**
- **Y gallu a'r parodrwydd i gyfrannu i fywyd cyffredinol y coleg a chyfleoedd allgyrsiol**
- **Lefel o anghenion dysgu ychwanegol**
- **Canlyniadau sgriniwr sgiliau cychwynnol a nodi unrhyw anghenion cymorth ychwanegol llythrennedd a rhifedd**

Pan fo'n bosibl, dylid hysbysu'r darpar ddysgwyr am benderfyniadau'r cyfweiliad ar ddiwedd y cyfweiliad.

Os bydd y canlyniad yn gadarnhaol, dylid rhoi ffurflen a llyfryn cynnig cwrs i'r dysgwyr.

Bydd neges destun ac e-bost yn llongyfarch yn dilyn o fewn 24 awr a llythyr cynnig ffurfiol o fewn 7 diwrnod gwaith.

Os bydd y broses gyfweiliad yn penderfynu nad y cwrs hwn o bosib fyddai'r mwyaf addas ar gyfer dysgwyr, cyfeirir y dysgwyr i gael cyngor ac arweiniad ychwanegol gan y tîm Derbyniadau gan lanw ffurflen gyfeirio. Bydd yr adran Derbyniadau'n archwilio opsiynau amgen o fewn meysydd y cwricwlwm/pwnc, efallai'n archwilio darpariaeth ar safon is, neu o fewn maes pwnc arall. Dylid ymdrin â phob cyfeiriad yn gadarnhaol gan roi sicrwydd i'r dysgwyr y bydd cynllun datblygu addas yn cael ei drafod a'i ganfod gyda hwy. Rhaid ceisio bob amser ddod o hyd i ddarpariaeth amgen sy'n ystyried beth fyddai orau i'r dysgwyr.



Y Coleg Merthyr Tudful

The College Merthyr Tydfil

Canllawiau Cyfweiliad i staff

Trosolwg

Mae'r Coleg Merthyr Tudful am sicrhau fod y broses gyfweiliad mor ddifyr a chefnogol â phosibl, gan gynnig cyfle i'r darpar ddysgwyr i amlinellu ei (d)dyheadau ef/hi a'r rhesymau dros ddewis y cwrs.

Rydym yn deall fod llawer o'r staff nawr yn cyfweild â dysgwyr pan fyddant yn dod i nosweithiau agored.

Ar gyfer yr ymgeiswyr hynny na chafodd gyfweiliad yn ystod noson agored neu sydd yn gwneud cais y tu allan i'n nosweithiau agored, bydd cyfweiliadau'n cael eu hamserlennu i ddigwydd o fis Tachwedd hyd at fis Medi. I gynorthwyo staff gyda'r broses hon, mae'r pecyn canllawiau canlynol wedi'i baratoi.

Amserlennu cyfweiliadau

Yn unol â'n polisi derbyniadau, byddem yn hynod ddiolchgar pe byddech yn sicrhau eich bod wedi rhoi dyddiadau ac amseroedd pryd y byddwch ar gael i gyfweild â darpar ddysgwyr, gan sicrhau ein bod yn bodloni'r cyfnod 10 diwrnod rydym am ei sicrhau rhwng gwneud cais a chyfweiliad. **Sylwch, os ydych yn ei chael yn anodd trefnu amser rhydd ochr yn ochr â'ch amserlen addysgu, byddwn i ac aelodau o'r tîm derbyniadau i helpu gyda chynnal cyfweiliadau, os mai dyna'ch dymuniad.**

Gwybodaeth a gewch cyn y Cyfweiliad

I baratoi ar gyfer eich cyfweiliad, bydd eich swyddog derbyniadau adrannol yn rhoi'r canlynol i chi:

- Copi o'n canllawiau cyfweiliad
- Rhestr o fyfyrwyr rydych yn eu disgwyl i gael cyfweiliad
- Copi o ffurflen gais y myfyrwyr a manylion am unrhyw gymorth anghenion dysgu ychwanegol y byddant eu hangen
- Copi o'r prospectws a gofynion mynediad i gyrsiau'r coleg
- Llyfrynnau Cynnig Cwrs

Mae rhestr o'r swyddogion derbyniadau adrannol ar gyfer pob adran i'w gweld trosodd.

Cynnal y Cyfweiliad

Bydd disgwyl i bob cyfwelydd sicrhau bod gan y darpar ddysgwyr y gallu, y cymwysterau priodol, y sgiliau a'r brwdfrydedd i gwblhau'r cwrs o'u dewis yn llwyddiannus er mwyn gwireddu eu potensial i'r eithaf a symud ymlaen i addysg bellach neu gyflogaeth. Cofiwch y canlynol:

- **Mae'r gofynion mynediad ar gyfer y rhai sydd am astudio pedwar lefel A wedi codi i 7 A*-B yn cynnwys Saesneg a Mathemateg, a bod disgwyl i'r dysgwyr gael o leiaf 3 A. Yn ychwanegol, bydd Bagloriaeth Cymru yn ddewisol ar gyfer y dysgwyr hyn.**
- **Bydd y gofynion mynediad ar gyfer y rhai sydd am astudio tri lefel A yn parhau fel y maent ar hyn o bryd sef 5 TGAU Gradd A*-C, yn cynnwys Saesneg neu Fathemateg fel isafswm a gofynion mynediad eich pwnc.**
- **Bydd y gofynion mynediad ar gyfer dysgwyr lefel 3 galwedigaethol yn parhau yn 5 TGAU Gradd A*-C.**

O ganlyniad, dylai'r cyfweiliad ganolbwyntio ar y meini prawf canlynol:

- **Rhesymau dros ddewis y cwrs/pynciau**
- **Lefel y diddordeb yn/brwdfrydedd dros y cwrs**
- **Uchelgeisiau'r dyfodol**
- **Addasrwydd ar gyfer y cwrs – cymwysterau cyfredol/i ddod, profiad gwaith neu wirfoddol cysylltiedig**
- **Dealltwriaeth o anghenion y cwrs**
- **Ymrwymiad tebygol i'r cwrs, yn cynnwys dealltwriaeth o gostau'r cwrs e.e. ffi cofrestru, gwisg, deunyddiau celf ac ati**
- **Y gallu a'r parodrwydd i ymwneud â gweithgareddau a chyfleoedd i gryfhau eu datblygiad personol**
- **Y gallu a'r parodrwydd i gyfrannu i fywyd cyffredinol y coleg a chyfleoedd allgyrsiol**
- **Lefel o anghenion dysgu ychwanegol**

Asesu gofynion cymorth llythrennedd a rhifedd ychwanegol

Os nad oes disgwyl i ddysgwyr gael C yn eu TGAU Saesneg neu Fathemateg, byddwch cystal â rhoi gwybod iddynt y bydd angen iddynt ailsefyll eu TGAU neu ddilyn rhaglen Sgiliau Hanfodol Cymru y coleg yn unol â Pholisi Sgiliau'r coleg.

Hysbysu'r dysgwr o ganlyniad y penderfyniad

Pan fo'n bosibl, dylid hysbysu'r darpar ddysgwyr am benderfyniadau'r cyfweiliad ar ddiwedd y cyfweiliad.

Os bydd y canlyniad yn gadarnhaol, dylid rhoi ffurflen a llyfryn cynnig cwrs i'r dysgwr.

Mae'r llyfrynau cynnig cwrs yn union fel rhai'r llynedd, gyda'r canlynol yn berthnasol:

- **Y myfyriwr i gadw'r copi gwyn ynghyd â'r llyfryn**
- **Chi i gadw'r copïau pinc ar gyfer eich cofnodion**
- **Rhowch y copïau gwyrdd i mewn i'ch ffeil ceisiadau am gwrs**

Sicrhewch eich bod yn llanw pob agwedd o'r llyfryn cynnig cwrs, gan ddatgan yn glir amodau cynnig y cwrs e.e. gofynion mynediad penodol i'r pwnc.

Sicrhewch eich bod yn atgoffa'r dysgwr fod y llyfryn cynnig cwrs yn cynnwys gwybodaeth bwysig ynghylch cymorth i ddysgwr, cymorth ariannol a theithio yn ôl ac ymlaen o'r coleg.

Bydd neges destun ac e-bost gan y swyddfa dderbyniadau yn llongyfarch yn dilyn y cyfweiliad o fewn 24 awr a llythyr cynnig ffurfiol o fewn saith diwrnod gwaith.

Os, fel rhan o'r broses gyfweild, eich bod yn penderfynu nad hwn yw'r cwrs mwyaf addas ar gyfer y dysgwr, byddwch cystal â gwneud un o'r canlynol:

- **Eu cyfeirio at gwrs mwy addas yn eich is-adran e.e. efallai nad yw'r dysgwr yn addas ar gyfer lefel A Busnes ond gallai fod yn fwy addas ar gyfer BTEC Lefel 3 Busnes neu ddysgwr yn gwneud cais am gwrs lefel 3 iechyd a gofal cymdeithasol ond efallai'n fwy addas ar gyfer cwrs lefel 2 iechyd a gofal cymdeithasol.**
- **Eu cyfeirio at y Tîm Derbyniadau am gyngor pellach a llanw'r ffurflen gyfeirio sydd wedi'u hatodi (atodiad pump). Bydd y Tîm Derbyniadau yn archwilio opsiynau amgen o fewn meysydd y cwricwlwm/pwnc, efallai'n archwilio darpariaeth ar safon is, neu o fewn maes pwnc arall. Dylid ymdrin â phob cyfeiriad yn gadarnhaol gan roi sicrwydd i'r dysgwyr y bydd cynllun datblygu addas yn cael ei drafod a'i ganfod gyda hwy. Rhaid ceisio bob amser ddod o hyd i ddarpariaeth amgen sy'n ystyried beth fyddai orau i'r dysgwr.**

ATODIAD PUMP: FFURFLEN CYFEIRIO AT GYFWELIAD

Enw'r ymgeisydd:	Cod y Person:
-------------------------	----------------------

Cyfeiriwyd o: (cwrs gwreiddiol y cyfweliad):

Dyddiad y cyfweliad:

Rheswm dros gyfeirio:

Awgrym o gwrs/gyrsiau amgen yn y coleg:

Neu:

Cyfeiriad at:

Adran Dderbyniadau

Gyrfa Cymru

Darparwr amgen

Tiwtor cwrs:

Dyddiad:

Swyddog Derbyniadau:

Dyddiad:

ATODIAD CHWECH: FFURFLEN A LLYFRYN CYNNIG CWRS